DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014 A RHEOLIADAU (DIWYGIO) 2018

ARDYSTIO A CHYMERADWYO CYFRIFON PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Gwynedd lofnodi a dyddio'r cyfrif incwm a gwariant a'r datganiad o falansau (Ffurflen Flynyddol), ac ardystio ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Er i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Pwyllgor ar 19 Mai 2022 ac iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 25 Mai 2022, gan fod Etholiadau Llywodraeth Leol wedi eu cynnal ar 5 Mai, nid yw'r corff wedi cyfarfod i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 31 Mai 2022.

Mi fydd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 17 Mehefin 2022.

Dyddiedig: 27 Mai 2022